CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Ionawr 2025
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, R G Parry, G Parry, S Jones, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Fowlie (Cynghorydd Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.11.24 fel cofnodion cywir. Cyng H N Evans yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn aros i glywed ymhellach gan y Brifathrawes. Mae'r mater yn dal gyda'r Cyngor Sir.
4.2	**Bin Lon Ty Hen** – Yn anffodus, mae'r bin yn rhy fawr ac mae'r Clerc yn aros iddo gael ei gasglu a'i ddychwelyd. Yna bydd yn archebu bin arall.
4.3	**Draenio y maes Chwarae** - Cytunwyd i edrych ar y mater hwn ymhellach ymlaen yn y flwyddyn a'i adolygu.
4.4	**Terfyn cyflymder Engedi** - Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau i weld a oes arweiniad pellach wedi ei dderbyn ynglŷn â chyfyngiadau cyflymder 40mya.
4.5	**Mynwent Bryngwran** - Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at berchennog Mountain View ynglŷn â'r goeden sydd wedi gordyfu ac mae'n aros am ymateb.
4.6	**Swings maes Chwarae** – Mae'r siglenni bellach wedi'u disodli.
4.7	**Traffig yn gadael Plas Crigyll** - Mae'r Cynghorydd D Fowlie wedi derbyn caniatâd gan y tirfeddiannwr i'r drych gael ei godi. Cytunwyd i fwrw ymlaen.
4.8	**Dosbarthwr bagiau cwn –** Mae y Clerc yn archebu dosbarthwr newydd
	Llofnod……..Cadeirydd 11.02.25

4.9	**Tywyn Trewan -** Mae'r Clerc wedi derbyn copïau o'r cofnodion a bydd yn eu hanfon at yr aelodau.
4.10	**Parcio Stryd Salem -** Mae'r Cynghorwyr I a P Roberts wedi cael cyfarfod safle gyda swyddog o'r Cyngor Sir. Yr unig ffordd i ddatrys y mater parcio yw gwneud cais am linellau melyn. Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â llinellau melyn ond i'r Clerc ysgrifennu at breswylydd yn gofyn iddo beidio ag achosi rhwystrau wrth barcio.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd y bydd hi'n 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd ar 8 Mai 2025. Cytunwyd i gynnal gwasanaeth byr yn y Gofeb ac i'r Clerc archebu 3 torch.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
6.1	**Mountain View** – gweler 4.5
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Ysgol Bryngwran** - Mae'r Clerc wedi ymateb i'r Brifathrawes gan ddweud nad oes gan y Cyngor unrhyw beth pellach i'w ychwanegu ynglŷn â chais am gamera CCTV
7.2	**Apêl yr Urdd 2026** - Cytunodd yr aelodau i gyfrannu £500 - cynigwyd gan y Cyng R G Parry ac eiliwyd gan y Cyng H N Evans.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Diffibriliwr** – Mae'r Cyngor wedi derbyn cais am ddiffibriliwr ym Mro Isaf. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â SP Energy Networks am ganiatâd i osod diffibriliwr ar wal yr is-orsaf ym Mro Isaf. Bydd hefyd yn gofyn a ydyn nhw'n barod i ddarparu cyflenwad trydan. Yn dilyn hyn, bydd yn gwneud cais I'r British Heart Foundation am grant ar gyfer diffibriliwr.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.1	Rhoddion Nadolig: £100 yr un – Ysgol Bryngwran, Plas Crigyll, Canolfan Dydd, Cylch Meithrin, Eglwys Bryngwran.
9.2	G L Jones £1110.00 (swings)
9.3	Humphreys Waste £24.00 (anf 15914) a £24.00 (anf 16968)
9.4	G Owen £155.88 (zoom blynyddol)
9.5	G Owen £60.00 (torchau Sul y Cofio)
9.6	Rhys Williams £2940.00 (torri gwair)
9.7	Adolygu cyllideb - Derbyniwyd y gyllideb a baratowyd gan y swyddog cyllid ar gyfer y cyfnod Ion 2025 i Fawrth 2025 gan yr aelodau. Mae gan y cyngor ddigon o arian.
	Llofnod…….Cadeirydd 11.02.25

9.8	Praesept 2025-2026 – Cytunwyd i gynyddu'r praesept i £15000. Bydd y cyngor hefyd yn defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn – Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 11.02.25